**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 10 Rhagfyr 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| S Pritchard | G J Tanner | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
D Anderson-Thomas

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mark Child – Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda
Y Cynghorydd Clive Lloyd – Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig Statudol: A Roberts

---

## 84 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd M C Child – personol - Cofnod Rhif 88 - Mae ei fam yn derbyn gwasanaethau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol - rhoddwyd goddefeb i'r

Cynghorydd Mark C Child gan y Pwyllgor Safonau i arfer pwerau gweithredol, aros, siarad, pleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Y Cynghorydd C A Holley – personol - Cofnod Rhif 88 - Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 85 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 86 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.

## 87 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 88 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda (y Cynghorydd Mark Child)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda adroddiad ar benawdau allweddol ei bortffolio. Darparwyd anerchiad llafar mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a gylchredwyd. Amlygodd y blaenoriaethau allweddol yn y portffolio: atal ac ymyrryd yn gynnar, moderneiddio a gweithio'n integredig yn ogystal â'r pwysau sy'n deillio o galedi a'r cynnydd yn y galw am y gwasanaeth.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac a yw'n ychwanegu gwerth at agweddau ar y portffolio
- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol - a oes cydbwysedd teg/a yw'r cyllid wedi'i rannu'n deg
- Parhau i hyrwyddo byw'n annibynnol a'r adnoddau sydd ar gael
- Cydlynu Ardaloedd Lleol - uchelgais i ehangu Cydlynu Ardaloedd Lleol i bawb yn Abertawe, sicrhawyd cyllid ar gyfer dwy swydd newydd yn ardaloedd Llansamlet a Blaen-y-maes a defnyddiwyd proses recriwtio newydd er mwyn eu penodi. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y tynnwyd cyllid yn ôl ar gyfer y Cydlynydd Ardaloedd Lleol a oedd yn gwasanaethu Tre-gŵyr, Llwchwr a Phenllergaer.
- Darparu tystiolaeth i ddangos effaith/canlyniadau Cydlynu Ardaloedd Lleol yn benodol i Abertawe, a'r effaith o ran lleihau'r galw/costau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

Nododd y Cadeirydd y derbyniwyd cwestiynau gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol ranbarthol Bae'r Gorllewin.

Canolbwyntiodd y cwestiynau ar argaeledd cofnodion ac agendâu ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin ynghyd â gwybodaeth, hygyrchedd a thryloywder y gwaith a wneir a hwyluso mwy o gysylltiad â'r cyhoedd. Darparodd Aelod y Cabinet ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a dderbyniwyd.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd Aelod y Cabinet yn darparu ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau gan y cyhoedd a dderbyniwyd;
2) Y bydd Aelod y Cabinet yn darparu tystiolaeth/cysylltiadau ag astudiaethau o ran effeithiolrwydd Cydlynu Ardaloedd Lleol; ac
3) Y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 89 Rhaglen Abertawe Gynaliadwy - Adolygiadau Comisiynu: Meysydd Gwasanaeth - Diweddariad Cynnydd Blynyddol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd, y Cyfarwyddwr Lleoedd a Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy'n bresennol wrth i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad am Raglen Abertawe Gynaliadwy - Adolygiadau Comisiynu: Meysydd Gwasanaeth - Diweddariad Cynnydd Blynyddol'.

Rhoddwyd anerchiad llafar gan y Dirprwy Arweinydd mewn perthynas â'r adroddiad a ddarparwyd, a oedd yn esbonio diben yr Adolygiadau Comisiynu ac yn amlygu'r cynnydd a'r canlyniadau dros y 12 mis diwethaf.

Rhoddodd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy gyflwyniad ar 'Adroddiadau Comisiynu Abertawe Gynaliadwy - Diweddariad Blynyddol' a oedd yn cynnwys y canlynol:-

- Diben allweddol
- Effaith ar genedlaethau'r dyfodol
- Egwyddorion craidd - canlyniadau enghreifftiol
- Heriau
- Camau nesaf

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai'r adolygiadau a wnaed yn parhau i gael eu monitro nes y caiff pob newid angenrheidiol ei roi ar waith. Roedd rhaglen gytunedig yr Adolygiadau Comisiynu a nodwyd yn 2014 bron wedi cael ei chwblhau a byddai rhaglen newydd yn cael ei datblygu. Byddai cynllun y rhaglen newydd yn cynnwys ffocws mwy ar gydgynhyrchu a byddai'n cynnwys mewnbwn Craffu.

Canolbwyntiodd trafodaethau â'r Dirprwy Arweinydd a'r swyddogion ar y canlynol:-

- Sicrhau bod Adolygiadau Comisiynu'n darparu/dangos gwerth am arian
- Manteision ac arbedion o ganlyniad i'r holl raglen
- Yr angen i Adolygiadau Comisiynu i ystyried barn/canfyddiadau'r cyhoedd ac i gael gwybodaeth eglur am yr hyn y mae'r cyhoedd am ei gael ar ddechrau'r adolygiad

- Adolygiad Parciau a Glanhau - Peth newid yn y cynllun ond mae gwaith i archwilio partneriaeth ynghylch y Gerddi Botaneg yn parhau (aeth y Cyfarwyddwr Lleoedd ati i egluro a oes cynlluniau o hyd i greu maes parcio lle codir tâl)
- Adnabod nifer o feysydd ar gyfer adolygiadau cyllidebu ar sail sero fel rhan o waith y dyfodol
- Gwerth cysylltu'n gynnar â Chraffu

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad a barn y pwyllgor.

## 90 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Jones, Cynullydd y Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio, ddiweddariad ar waith y panel hyd yn hyn. Cyfeiriodd at gynllun gwaith y panel sy'n cynnwys adroddiad mewn arddull 'dangosfwrdd' ym mhob cyfarfod er mwyn cefnogi monitro parhaus ac 'archwiliadau iechyd' cyson o brosiectau datblygu ac adfywio. Amlygodd y gwaith craffu cyn penderfynu diweddar ar y Diweddariad ar Gam 1 Abertawe Ganolog ac FPR7 gan nodi'r pryderon ynghylch cost y prosiect.

## 91 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn amlinellu nad oedd unrhyw newidiadau i aelodaeth o'r paneli a'r gweithgorau craffu presennol.

## 92 Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2018/19.

Trefnwyd y bydd Sesiwn Holi Aelod y Cabinet ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu gyda'r Arweinydd. Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor gyflwyno cwestiynau neu bynciau ar gyfer cwestiynau cyn y cyfarfod.

Nodwyd hefyd y cafodd Dr. Gideon Calder ei gyfethol i'r Panel Ymchwilio Cydraddoldeb.

## 93 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu, er gwybodaeth.

Amlygodd y llythyr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, dyddiedig 26 Tachwedd 2018. Ar fater camau gweithredu posib i fynd i'r afael â phryderon ynghylch allyriadau mygdarth cerbydau ger ysgolion, a chyngor gan Aelod y Cabinet, nodwyd y byddai'n fwy addas i ofyn i gyrff llywodraethu ystyried a yw eu polisïau lles yn ymdrîn â risgiau iechyd sy'n gysylltiedig ag allyriadau mygdarth ac i ofyn iddynt gytuno ar strategaeth ar gyfer cyfleu neges i rieni. Roedd teimlad hefyd y gellid annog ysgolion sy'n rhan o Raglen Eco-ysgolion i ystyried y mater hwn.

Mewn perthynas â'r llythyr oddi wrth Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, nodwyd hefyd fod yr awdurdod lleol wedi argymell i gyrff llywodraethu y dylai

pob llywodraethwr ysgol gael gwiriad GDG. Fodd bynnag, gan nad yw hyn yn orfodol, mae'n fater i gyrff llywodraethu gytuno arno.

Hefyd, amlygodd gais a dderbyniwyd gan y Gweithgor Craffu Llygredd Aer a Sŵn i gwrdd yn flynyddol. Dylid ystyried hyn fel rhan o'r Gynhadledd Cynllunio Gwaith ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor y cynhelir craffu cyn penderfynu gan y Panel Perfformiad Ysgolion ar 17 Rhagfyr 2018 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Craig-cefn-parc (adroddiad ar yr Arolygiad o Ysgolion Bach) ac YGG Felindre (adroddiad ar Drefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg), a oedd yn destun penderfyniad gan y Cabinet ar 20 Rhagfyr.

**94 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).**

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth. Nododd y Cadeirydd y gwneir trefniadau er mwyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ddod i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

**95 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

Rhoddwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.50 pm

**Cadeirydd**